

# Busnes Cymdeithasol Cymru Social Business Wales

## Y Siwrne i Ailagor Eich Busnes Cymdeithasol



## Cam 2: Canfod y ffordd orau

## Cynnwys

Cyflwyniad	2
<b>Cam 2: Canfod y ffordd orau</b>	3
Hyder Defnyddwyr	3
Cyfathrebu	6
Technoleg	10
Rheoli Cyllid	15
Llesiant yn y Gweithle	18
Atodiad 1: Adnodd Rhestr Wirio	23

## Y Siwrne i Ailagor Eich Busnes Cymdeithasol

Mae Covid-19 wedi trawsnewid yr amgylchedd ar gyfer busnesau, o'r orfodaeth i gau a chyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol i ffyrdd newydd o weithio. Mae rhai busnesau wedi gallu parhau i fasnachu, gydag eraill wedi gorfod newid neu ostwng yr hyn y maen nhw'n ei gynnig. Ac mae rhai busnesau wedi gorfod rhoi'r gorau i'r holl weithgareddau a chau dros dro.

Gall y posibilrwydd o ailagor yn llawn a dysgu beth fydd natur y drefn newydd i'ch busnes eich llethu i ryw raddau. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi datblygu'r canllaw hwn i'ch helpu i lywio eich siwrne unigol chi i ailagor. Bydd yn eich helpu chi fel busnes cymdeithasol i ystyried y goblygiadau allweddol o ailgychwyn eich busnes, ei gadw ar agor a llywio unrhyw anawsterau ar hyd y daith. Bydd yr adnodd hwn yn eich cyfeirio at yr adnoddau allweddol a'r ffynonellau gwybodaeth bob cam o'r ffordd.

Mae'r adnodd wedi'i rannu'n dri cham, gyda llawlyfr syml i gyd-fynd â phob cam:



**Cam 1: Cynllunio eich siwrne** – mae'r cam hwn yn ymdrin â'r pethau hanfodol i'w hystyried cyn y gallwch ailagor, e.e. lleoliad, staffio a gofynion diogelwch newydd. Mae'n cychwyn isod.



**Cam 2: Canfod y ffordd orau** – mae'r cam hwn yn ystyried defnyddio ffyrdd newydd o weithio fel technegau technoleg a chyfathrebu a all helpu eich busnes yn ogystal â'ch ystyriaethau ariannol.

**Cam 3: Y Rhwystrau o'ch Blaen** – mae'r cam hwn yn nodi rhai o'r rhwystrau posibl y gallai eich busnes eu hwynebu, fel mynd yn ôl i gyfyngiadau symud a symud i ffwrdd oddi wrth eich gwir ddiben.

Mae'n eich helpu i ddatblygu strategaethau i fod yn fwy gwydn a hyblyg.

Mae'r sefyllfa gyda Covid-19 yn newid drwy'r amser. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddiweddarau wrth i reoliadau newydd y llywodraeth gael eu cyhoeddi ac wrth i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei rhyddhau. Nod y pecyn cymorth yw eich cyfeirio at wybodaeth ac adnoddau defnyddiol. Mae llawer o'r dolenni yn y ddogfen hon yn mynd â chi at wefannau allanol, rydym yn eu rhannu'n hollol ddiwyll, ond nid oes gennym unrhyw reolaeth dros eu cynnwys na'u cywirdeb.

## CAM 2: Canfod y ffordd orau

Gall dechrau paratoi i ailagor, neu gymryd y camau i gael staff yn ôl i mewn ac agor eich drysau deimlo fel eich bod wedi cyrraedd eich nod ac wedi cyrraedd pen y daith ar ôl siwrne



hir, nas gwelwyd ei thebyg. Ond dim ond un o'r heriau y bydd busnesau yn eu hwynebu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf yw ailagor. Canfod sut gallwch chi aros ar agor a pharhau'n hyfyw yn y tymor hir yw'r targed yn y pen draw.

Mae pawb yn disgwyl y bydd yn cymryd amser tan y bydd busnesau yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn Covid, felly bydd canfod ffyrdd o ailsefydlu hyder cwsmeriaid a gwydnwch staff yn allweddol er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn wydn ac yn gallu ymdopi â newidiadau ac ergydion ar hyd y daith. Gall canfod y ffordd orau i'ch busnes cymdeithasol gynnwys datblygu sgiliau newydd, defnyddio ffyrdd newydd o weithio ac o bosibl cael gafael ar arian ac adnoddau ychwanegol fel y gallwch chi lywio'r ffordd o'ch blaen.

Yn y cam hwn, byddwn yn dadansoddi'r prif ystyriaethau, gan eich galluogi i weithio drwy bob pwnc a pharatoi cynlluniau a gweithdrefnau newydd, gan ddatblygu'r 'drefn newydd'.



Cofiwch ystyried sut bydd hyn i gyd yn effeithio ar eich darpariaeth o ddydd i ddydd, eich gallu i gyflawni eich allbynnau cymdeithasol a'ch hyfywedd ariannol yn y tymor hwy.

## Hyder Defnyddwyr

**Yn gryno:** Mae bywydau pobl wedi newid o ganlyniad i'r pandemig. O'r herwydd, mae'r ffordd y mae pobl yn gwario wedi newid. Golyga hyn ei bod yn bosibl nad oes yr un galw am y nwyddau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu defnyddio cyn y pandemig. Oherwydd y pandemig, gwelwyd cynnydd aruthrol mewn siopa ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae mwy o bobl yn fodlon siopa ar-lein ac mae mwy o bobl yn fodlon gwneud eu siopa drwy glicio a chasglu. Mae busnesau lleol wedi gweld manteision hyn ac wedi rhoi systemau archebu ymlaen llaw a danfon ar waith.

Mae llawer o bobl yn gwneud pethau gartref nawr, pethau yr oedden nhw'n arfer eu gwneud drwy fynd i leoliad penodol, ac nid dim ond gwaith ac ysgol! Erbyn hyn, mae dosbarthiadau ymarfer corff, diddordebau a hyd yn oed cymdeithasu gyda ffrindiau bellach yn cael eu gwneud ar-lein. Does wybod pa rai o'r tueddiadau hyn fydd yn barhaol a pha rai fydd yn rhai dros dro tan y bydd y pandemig yn dechrau dirwyn i ben a phethau'n dychwelyd i normalrwydd o fath. O ganlyniad, efallai bydd yn rhaid i chi wneud penderfyniadau anodd ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau rydych chi'n eu cynnig i farchnadoedd gwahanol.

Mae'r pandemig yn effeithio ar economi'r wlad hefyd a bydd hynny'n cael effaith ddilynol ar allu'r farchnad ddefnyddwyr i wario. Mae llai o swyddi yn cyfateb i lai o arian, sy'n golygu bod llai o bobl yn prynu eitemau nad ydynt yn hanfodol ac mae pobl yn treulio mwy o amser yn penderfynu sut i wario eu harian hyd yn oed ar gyfer eitemau hanfodol. Bydd angen i fusnesau ystyried y cynhyrchion a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cynnig a chanfod pa rai fydd yn parhau i fod â'r galw mwyaf amdany'n nhw mewn cyfnod o ddirwasgiad tebygol, gan hefyd ystyried a fydd angen rhoi sylw i brisiau a'r ffordd y caiff eitemau eu cyflwyno ac a ellid ystyried cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Diogelwch yw'r prif fater arall sy'n effeithio ar hyder defnyddwyr. Pa fesurau gall busnes eu cymryd er mwyn sicrhau bod ei gwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel wrth brynu ganddo? Mae pethau fel cadw pellter corfforol a hylendid yn cael sylw mewn rhan arall o'r gyfres hon, ond bydd cyfathrebu'r camau rydych wedi'u cymryd gyda'ch cwsmeriaid yn ffactor pwysig o ran pa mor ddiogel y maen nhw'n teimlo wrth brynu gennych. Os ydych chi wedi treulio blynyddoedd yn meithrin perthynas â'ch cwsmeriaid, a bod ganddyn nhw ymddiriedaeth ynoch chi, gallai cyfathrebu'r mesurau diogelwch rydych chi wedi'u rhoi ar waith olygu'r gwahaniaeth rhwng cadw'r cwsmeriaid ffyddlon hyn neu eu colli i gystadleuydd sydd wedi cyfathrebu ei ddulliau mewn ffordd well.



Mae'r broses o ailsefydlu hyder defnyddwyr yn yr hyn rydych chi'n ei ddarparu a'ch ffyrdd o weithredu'n ddiogel yn gam pwysig wrth ailgychwyn eich busnes ac ailadeiladu eich incwm.

### Ystyriwch y canlynol:

- Sganio cystadleuol. Edrychwch ar eich cystadleuwyr a'r hyn maen nhw'n ei wneud. Sut maen nhw wedi newid eu dull o gyfathrebu, eu cynhyrchion a'u gwasanaethau, eu prisiau? Os ydyn nhw wedi gwneud newidiadau, pam maen nhw wedi gwneud hynny?
- Ewch ati i wneud dadansoddiad 5 Cam. Mae hwn yn adnodd marchnata a ddefnyddir yn aml sy'n ystyried y pwysau allanol ar fusnesau gan gystadleuwyr, y pŵer sydd gan gyflenwyr a chwsmeriaid dros eich prisiau, y bygythiad gan fusnesau newydd sy'n ymuno â'r farchnad a'r bygythiad a ddaw o newid un cynnyrch am gynnyrch arall. [<https://www.smartinsights.com/online-brand-strategy/brand-development/how-to-use-porters-5-forces-model/>](https://www.smartinsights.com/online-brand-strategy/brand-development/how-to-use-porters-5-forces-model/)
- Ystyriwch a allech chi fod yn defnyddio technoleg yn fwy effeithiol ar gyfer darparu cynhyrchion a gwasanaethau (gweler y rhan nesaf).
- Ystyriwch eich prisiau a'r ffordd rydych chi'n gwerthu eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau i gwsmeriaid. Allwch chi ei gwneud yn haws i gwsmeriaid brynu a pharhau i ddarparu'r hyn y maen nhw ei angen?
- Ystyriwch amrywiaeth eich cynhyrchion – allwch chi leihau neu newid amrywiaeth y cynhyrchion sydd gennych er mwyn gwasanaethu eich cwsmeriaid yn well?
- Ystyriwch y ffordd rydych chi'n cyfathrebu â'ch cwsmeriaid. Allwch chi dawelu eu meddwl ynglŷn ag arferion hylendid, mesurau diogelwch bwyd neu ofal, mesurau cadw pellter corfforol, PPE a defnyddio ataliadau amddiffynnol eraill? Allwch chi gyfathrebu hyn mewn ffordd sy'n tawelu meddwl pobl ond eto sy'n parhau i gyfleu eich negeseuon craidd i'r cwsmeriaid hynny? I gael disgrifiad diddorol o'r ffordd y gellir defnyddio hyn mewn amgylchedd manwerthu, darllenwch yr erthygl hon <https://www.mytotalretail.com/article/were-all-in-it-together-attitude-drives-consumer-confidence-in-covid-19/> ac ar gyfer atyniadau ymwelwyr, darllenwch hwn <https://blooloop.com/visit-attractions-after-covid-19-survey/>. Pa wersi allwch chi eu dysgu ar gyfer eich busnes eich hun?
- Ystyriwch y ffordd rydych chi'n cyfathrebu newidiadau i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr. Os ydyn nhw'n hyderus, bydd hynny'n amlwg yn eu hymwneud â'ch cwsmeriaid.
- Yn yr un modd, ystyriwch gyfathrebu'r mesurau diogelwch rydych chi wedi'u rhoi ar waith er mwyn lleddfu pryderon dros ddiogelwch, mae John Lewis wedi cynhyrchu fideo yn egluro'r camau maen nhw wedi'u cymryd: <https://www.youtube.com/watch?v=SNBNKY6S6Hk>
- Ystyriwch y cyfryngau rydych chi'n eu defnyddio i gyfathrebu â'ch cwsmeriaid. Allwch chi wneud mwy o waith hyrwyddo all-lein? Oes mwy o'ch cwsmeriaid wedi mynd ar-lein – lle gallwch chi eu cyrraedd?



- Ystyriwch gynllun cyfathrebu ysgrifenedig sy'n amlinellu'r neges rydych chi am ei chyfleu, i bwy a sut rydych chi am gael y neges honno atyn nhw, a phryd.

Neges	Ar gyfer pwy mae'r neges?	Sut mae'r neges am eu cyrraedd (Cyfryngau)?	Pryd?
<i>Enghraifft: Rydyn ni wedi ail-agor ac mae'n ddiogel ymweld â ni</i>	<i>Cwsmeriaid blaenorol</i>	<i>Cyhoeddiad e-bost Dilynwyr ar y Cyfryngau Cymdeithasol Ffonio cwsmeriaid allweddol</i>	<i>I'w gadarnhau</i>

### Camau Gweithredu:

- Ewch ati i adolygu eich busnes eich hun a sganio busnesau eich cystadleuwyr. Dylech adolygu'n rheolaidd a gwneud addasiadau i'ch dull eich hun os oes angen.
- Ystyriwch y dechnoleg rydych chi'n ei defnyddio a'r dechnoleg y gallech chi fod yn ei defnyddio. Allech chi roi prosesau archebu ar-lein ar waith? Meddalwedd archebu ystafell / cyfleuster? Gwell presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol?
- Ystyriwch amrywiaeth eich cynhyrchion a'ch prisiau. Ceisiwch addasu er mwyn gweddu i'r sefyllfa newydd os yw hynny'n ofynnol ac yn ymarferol.
- Ewch ati i archwilio'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud er mwyn gwneud yn siŵr bod eich staff, eich cleientiaid a'ch cwsmeriaid yn ddiogel.
- Ysgrifennwch gynllun cyfathrebu sy'n mynd i'r afael â'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud, sydd â'r nod o dawelu meddwl eich marchnadoedd targed (a rhanddeiliaid), a rhowch y cynllun ar waith gan ei fonitro, ei adolygu a'i addasu yn ôl yr angen.

<b>Rhestr Wirio ar gyfer Hyder Defnyddwyr:</b>	<b>Cwblhawyd</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Erbyn</b>	<b>Dyddiad adolygu targed</b>
Adolygu eich cynhyrchion, eich gwasanaethau a'ch prisiau				
Sganio cystadleuwyr				
Canfod dulliau newydd o gyfathrebu â defnyddwyr				
Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu er mwyn hysbysu defnyddwyr o'r camau a gymerwyd i fod yn ddiogel rhag covid				





## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae **The Drum** yn trafod strategaethau gwahanol er mwyn ailsefydlu hyder defnyddwyr:

<https://www.thedrum.com/opinion/2020/05/07/restoring-consumer-confidence-after-covid-19-spiders-edwina-currie-and-gold>

## Cyfathrebu

**Yn gryno:** Bydd cyfathrebu wrth wraidd y ffordd rydych chi'n rheoli eich proses o adfer. Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r ffordd rydych chi'n cyfathrebu â chwsmeriaid am y mesurau diogelwch rydych chi wedi'u rhoi ar waith neu'r cynhyrchion a'r gwasanaethu rydych chi'n eu cynnig a'r oriau rydych chi ar agor, yn negeseuon allweddol y bydd angen i chi eu hystyried a'u cyfathrebu ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir. Mae cael y neges a'r cyfrwng yn gywir yn gwbl allweddol.

Mae cyfathrebu yn ymestyn i'ch aelodau staff hefyd, wrth i chi eu paratoi i ddychwelyd i'r gwaith. Efallai eu bod yn bryderus am eu diogelwch eu hunain a'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol y byddan nhw'n eu hysgwyddo pan fyddan nhw'n dychwelyd i weithle gwahanol iawn. Gall cyfathrebu ag aelodau staff cyn iddyn nhw ddychwelyd ynglŷn â'r gweithdrefnau diogelwch newydd a roddir ar waith i'w hamddiffyn, y newidiadau ffisegol i'r amgylchedd gwaith a'r gweithdrefnau sydd mewn lle helpu i dawelu meddwl aelodau staff pryderus, meithrin ymddiriedaeth a chryfhau'r broses o ymgysylltu. Bydd yn hwb i barhad a materion cydymffurfio hefyd. Bydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau staff am y rheolau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn sicrhau y bydd pobl yn cydymffurfio i raddau mwy ac y bydd llai o siawns o achosion posibl o dorri rheolau.

Bydd cael cynllun cyfathrebu effeithiol a realistig ar waith yn hanfodol, ond gyda'r rhestr hirfaith o dasgau i'w cwblhau a chamau i'w cyflawni fel rhan o'ch cynllun i ailagor, mae'n hawdd i'r broses o gyfathrebu ddisgyn i waelod y rhestr. Fodd bynnag, mae deall pwysigrwydd cyfathrebu a sut i'w ddefnyddio i'ch mantais eich hun yn allweddol. Bydd cynnwys tasgau cyfathrebu yn eich cynllun i ailagor a mynd ati i gyfathrebu â rhanddeiliaid dros y 6-12 mis nesaf yn helpu gyda'ch siwrne i ailagor a bydd yn eich galluogi hefyd i ymdrin yn hwylus ag unrhyw heriau a fydd yn eich wynebu wrth i chi geisio adfer a sefydlu eich trefn newydd.

## Ystyriwch y canlynol:

- Sut rydych chi wedi cyfathrebu ag aelodau staff yn ystod y pandemig? Allwch chi wella'r ffordd rydych chi'n cyfathrebu â nhw, oes technoleg ar gael y gallech ei defnyddio er mwyn gwella eich cyfathrebiadau? Gwiriwch ein canllaw am restr o



adnoddau fideo-gynadledda a chydweithredu <https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/03/Technology-factsheet-English.pdf>

- Ystyriwch sefydlu grwpiau sgwrsio neu gyfryngau cyfathrebu ar feddalwedd fel Microsoft Teams neu Slack er mwyn cael sgysiau mewnol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau staff.
- Allwch chi lunio fideo byr o'r gweithdrefnau diogelwch newydd sydd ar waith ar gyfer aelodau staff a chwsmeriaid? Gallech roi cynnig ar ap ar ddyfais symudol neu ar-lein sy'n golygu fideos gyda phlatform fel Adobe Spark i'w paratoi a'i anfon i'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Rydych chi angen arddangos yn glir arwyddion neu bosteri ar gyfer aelodau staff a chwsmeriaid ar bellter corfforol, gwisgo masgiau neu ddisgwyl i gael mynediad i safleoedd ac uchafswm nifer y bobl sy'n cael mynd i mewn.
- Rhowch gynnig ar roi straeon ar Instagram i atgoffa pobl eich bod yn dal i gynnig gwasanaeth.
- Byddwch yn gwbl ymwybodol o'ch trefn newydd a'i chyfathrebu! Meddyliwch am y profiad newydd i'r cwsmer a'i egluro cam wrth gam, yn cynnwys gweithdrefnau archebu newydd, uchafswm nifer y bobl sy'n cael mynd i mewn i'ch safle, defnyddio masgiau wyneb ac ai taliadau cerdyn yn unig a dderbynnir. Bydd angen cyfathrebu'r rhain i gwsmeriaid ynghyd ag unrhyw newidiadau i oriau gweithredu cyn ailagor.
- Gwnewch yn siŵr bod eich gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys eich gweithdrefnau gweithredu diweddaraf. Ychwanegwch unrhyw bolisiau Covid neu Aseidiadau Risg er mwyn dangos i randdeiliaid y camau rydych chi'n eu cymryd i weithredu'n ddiogel.
- Gwiriwch eich prif ddulliau gwerthu er mwyn sicrhau eich bod yn barod gyda'r neges gywir pan fydd yn amser i chi dargedu eich cynulleidfa
- Ewch ati i gynnal arolwg o gwsmeriaid am eu hanghenion cyfredol neu newydd neu'r cyfryngau o'u dewis.
- Gwiriwch GDPR os ydych chi'n cysylltu â chwsmeriaid er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â rheoliadau.
- Cofiwch gadw mewn cysylltiad â'ch cwsmeriaid drwy gylchlythyr gan ddefnyddio plattform fel Mail Chimp.
- Ydy partneriaethau newydd wedi esblygu? Ysgrifennwch restr newydd o randdeiliaid a phartneriaid posibl neu gyrff cyllido a byddwch yn sicr i'w cynnwys ar gyfathrebiadau perthnasol.
- Ewch ati i gyfathrebu eich gwerth – ewch ati i rannu'r effaith gymdeithasol rydych chi'n ei chael. Yn ogystal â dangos eich gwerth, oes yna unrhyw fentrau newydd rydych chi wedi bod yn rhan ohonyn nhw yn ystod yr argyfwng y gallwch eu dangos? Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, ceisiwch ganfod beth i'w nodi neu ei gofnodi a chynllunio sut byddwch chi'n ei ddefnyddio. Gallech ddefnyddio niferoedd,





ffotograffau neu negeseuon gan gwsmeriaid bodlon. Cofiwch gynllunio pryd i'w casglu ac ym mha fformat, gan sicrhau bod gennych y caniatâd cywir.

### Camau Gweithredu:

- Ewch ati i ddatblygu cynllun cyfathrebu i'w ddefnyddio'n allanol ac yn fewnol.
- Ceisiwch ddod i adnabod beth yw eich trefn newydd, ewch ati i gynllunio sut byddwch chi'n gweithredu a chreu ffordd o hysbysu a hyfforddi staff.
- Dylech gyfathrebu eich trefn newydd i gwsmeriaid a rhanddeiliaid.
- Dylech fod yn rhagweithiol wrth gyfathrebu – mae angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid ac aelodau staff am unrhyw newidiadau neu os ydych chi'n cau os oes cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol ar waith
- Mae angen sicrhau bod eich gwefan a'ch cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am eich dulliau gweithredu, ac mae angen ychwanegu eich polisi Covid ac asesiad risg.
- Rydych chi angen arddangos unrhyw ofynion cadw pellter neu arwyddion am ymddygiad mewn lleoliadau ffisegol.
- Dylech gadw mewn cysylltiad â'ch rhanddeiliaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau ac ati.
- Gwiriwch fod eich prif neges a'ch cyfrwng yn barod i weithredu.
- Penderfynwch pa effeithiau rydych chi am eu mesur a'r ffordd byddwch chi'n eu cyfathrebu.

Rhestr Wirio ar gyfer Cyfathrebu	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Datblygu cynllun cyfathrebu am y 6 mis nesaf nesaf.			
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau staff am weithdrefnau a mesurau diogelwch newydd yn y gweithle.			
Rhoi manylion y profiad newydd i gwsmeriaid drwy fideos, negeseuon a chyfathrebiadau.			
Cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar eich gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.			
Cynnal arolwg o gwsmeriaid a rhanddeiliaid.			
Cadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid a rhanddeiliaid drwy ddeunydd marchnata a'r			



cyfryngau cymdeithasol.			
Gwirio'r gofynion GDPR.			
Cynllunio sut i fesur a chyfathrebu eich effaith.			

## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

**GDPR** <https://ico.org.uk>

**Apiau golygu fideos** <https://www.creativebloq.com/features/6-great-video-editing-apps-for-mobile>

**Mesur effaith gymdeithasol** <https://www.goodfinance.org.uk/measuring-social-impact>

Mae gan **y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu Gwirfoddol** ganllawiau ar gyfer ysgrifennu cynllun cyfathrebu a datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol:

<https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/communications/communications-strategy>

<https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/communications/social-media>

## Pecyn Cymorth Cyfryngau Cymdeithasol

<https://www.skillsplatform.org/charitysocialmediatoolkit/>

**PR Academy** <https://pracademy.co.uk/insights/how-to-develop-and-write-a-communication-strategy/>

## Technoleg

### Yn gryno:

Mae llawer o fusnesau wedi cael eu gorfodi i ddefnyddio technoleg i raddau mwy yn ystod y cyfyngiadau symud nag ar unrhyw adeg arall. O ddefnyddio Facebook i gadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid, i gynnal cyfarfodydd bwrdd drwy Zoom, i weithio ar y cyd ar Teams a chymryd archebion a thaliadau ar-lein drwy safleoedd e-fasnach. Mae technoleg wedi bod yn achubiaeth i fusnesau yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae wedi galluogi busnesau i gadw mewn cysylltiad â rhanddeiliaid, cwsmeriaid ac aelodau staff ac wedi galluogi cwsmeriaid i brynu cynhyrchion o bell mewn ffordd wahanol.

Gyda mwy o oedolion nag erioed â phresenoldeb ar-lein ar hyn o bryd ac yn dod yn fwy a mwy cymwys gyda thechnoleg, mae agweddau ac ymddygiad defnyddwyr wedi newid. Gall y datblygiadau hyn gynnig cyfleoedd i'ch busnes wrth symud ymlaen. Felly, wrth i ni baratoi i ailagor a sefydlu ein trefn newydd, efallai ei bod yn amser i adolygu'r ffordd rydych chi'n



gweithredu ac ystyried integreiddio technoleg yn llawn yn eich gweithredoedd o ddydd i ddydd. Gall technoleg gefnogi eich dulliau masnachu, cyfathrebu a gweithredu.

Gall rhoi systemau a chynhyrchion newydd ar waith fod yn gostus a gall gymryd llawer iawn o amser a hwyrach bod rhai busnesau wedi teimlo yn y gorffennol bod y rhwystrau'n ormod iddyn nhw. Ond mae'r pandemig wedi drysu'r ffordd rydym yn byw, gweithio a defnyddio nwyddau a gwasanaethau, felly nawr o bosibl yw'r amser delfrydol i ailystyried rhagdybiaethau a rhwystrau ac ystyried defnyddio technoleg i raddau mwy er mwyn sicrhau bod eich busnes yn achub mantais a'ch bod yn cadw i fyny â'r tueddiadau diweddaraf.

### **Ystyriwch y canlynol:**

- Meddyliwch am y ffordd roeddech chi'n gweithredu cyn y cyfyngiadau symud a'r dechnoleg roeddech chi'n ei defnyddio. Ewch ati i gymharu hynny â'r ffordd rydych chi wedi gweithredu yn ystod y cyfyngiadau symud, a rhestru'r manteision a'r anfanteision yn ogystal â'r gwersi rydych chi wedi'u dysgu.
- Ewch ati i gynllunio sut gallwch chi ddefnyddio mwy o dechnolegau neu dechnolegau newydd yn eich busnes. Meddyliwch sut gall eich helpu o ran masnachu, cyfathrebu, cydweithredu a gweithredoedd busnes.
- Ar gyfer pob un, ystyriwch y gofynion hyfforddi, yr adnoddau sydd eu hangen, yn cynnwys amser staff, arian a chymorth technegol.

### **Masnachu:**

- Adolygu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau rydych yn eu cynnig ar hyn o bryd, a'r gweithgareddau, gwasanaethau neu'r cynhyrchion gallech eu gwerthu ar-lein.
- Allech chi gynnig unrhyw wasanaethau newydd er mwyn cael mwy o incwm fel talebau ar gyfer prynu pethau ymlaen llaw neu Pay it forward? Gellir gwerthu gwasanaethau ar-lein hefyd drwy blatfformau fideo-gynadledda. Allech chi gynnig sesiynau ffitrwydd, cwnsela neu hyd yn oed ddawnsio o bell?
- Allwch chi gynnig adnodd ar-lein i gefnogi eich cymuned - datblygu rhywbeth defnyddiol ar gyfer rhieni sydd â phlant gartref, calendr cymunedol neu ryseitiau?
- Cadw siwrne cwsmer mor syml â phosibl ar gyfer y siopwr ar-lein, meddwl am y platfform sydd ei angen i werthu cynhyrchion ar-lein. Penderfynu a ydych am werthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ychwanegu swyddogaeth e-fasnach i'ch gwefan neu werthu drwy blatfform trydydd parti.
- Os ydych chi'n gallu gwerthu cynhyrchion, gallwch ystyried dull ar-lein o dalu i weddu i raddfa eich busnes.



- Ymchwiliwch i byrth taliadau (fel PayPal) neu beiriannau cerdyn a'r cyfraddau gwahanol y mae darparwyr yn eu codi.
- Penderfynwch sut rydych chi am fynd ati'n ymarferol i ddanfon nwyddau. Oes angen gwasanaeth danfon arnoch chi, neu allwch chi ddanfon eich hun? Cofiwch unrhyw ofynion gan y diwydiant e.e. rheolaethau tymheredd ar gyfer tymheredd bwyd. Dylech sicrhau eich bod yn diweddar unrhyw brosesau a gwirio eich yswiriant ar gyfer gwasanaeth newydd.
- Pwy fydd yn gyfrifol ar gyfer yr agwedd hon ar y busnes? A fydd angen hyfforddi staff – ac a oes unrhyw gostau cysylltiedig?

### Cyfathrebu:

- Ystyriwch sut rydych chi wedi bod yn cyfathrebu â'ch cwsmeriaid, staff a rhanddeiliaid yn ystod y pandemig – oedd eich dulliau'n effeithiol? Mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch cynulleidfa drwy negeseuon rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar eich gwefan yn bwysig iawn i ail-feithrin hyder defnyddwyr ac o safbwynt teyrngarwch. Gallech wneud apêl am gymorth hefyd os oes angen neu hyd yn oed gynnal ymgyrch crowdfunding.
- Allech chi wneud ffilm gan ddefnyddio ffilm o'r ffôn symudol a phlatfform fideo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid?
- Gall datblygu cylchlythyr, er enghraifft gyda mailchimp, fod yn ffordd hawdd ac effeithiol o rannu gwybodaeth a gallech ystyried ymchwilio i ddewisiadau cwsmeriaid ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau neu arddulliau cyfathrebu yn y dyfodol. Gallech ddefnyddio system fel Survey Monkey neu bôl piniwn ar-lein.
- Mae Learn My Way yn cynnwys tiwtorial ar-lein rhad ac am ddim ar ddefnyddio Facebook: <https://www.learnmyway.com/courses/using-facebook/>
- Ydy'ch gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol yn gyfredol?
- Gallai datblygu eich presenoldeb ar-lein helpu i ddenu gwirfoddolwyr neu aelodau bwrdd hefyd.

### Cydweithredu:

- Ydych chi wedi defnyddio fideo-gynadledda ar gyfer cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd bwrdd? Os ydych chi'n parhau i bwysu a mesur dewisiadau fideo-gynadledda ar gyfer eich tîm, fel Zoom, edrychwch drwy ein canllawiau am ragor o wybodaeth am hyn <https://www.learnmyway.com/subjects/more-internet-skills/#resources>
- Os ydych chi angen cydweithredu â'ch tîm ar-lein, gallech chi ddefnyddio cynhyrchion fel Microsoft Teams, Slack, Trello, Basecamp, G Suite (neu Google Suite) a Whatsapp i gydweithredu â'r gweithle. Mae pob un yn eich galluogi i gyfathrebu rhwng eich timau, gyrru negeseuon uniongyrchol a rhannu gwybodaeth a dogfennau ar draws eich sefydliad. Mae'r cyfan ar gael i'w defnyddio ar gyfrifiadur neu ar ddyfais



symudol. Ydych chi'n ymwybodol o'r holl swyddogaethau? Ewch ati i ymchwilio pa adnoddau a fydd yn gweithio orau ar gyfer eich sefydliad chi a sicrhau bod aelodau staff yn hyderus yn ei ddefnyddio.

- Mae Whatsapp yn ap rhad ac am ddim ar gyfer dyfeisiau symudol ac mae'n wych ar gyfer anfon negeseuon testun. Gallwch greu grŵp Whatsapp ar gyfer eich Bwrdd neu dîm eich staff a chyfathrebu'n gyflym gyda'r grŵp cyfan yr un pryd. Mae angen ei lawrlwytho o'ch siop apiau symudol.
- Mae defnyddio fideo-gynadledda ar gyfer aelodau o'r bwrdd yn integreiddio hyblygrwydd, yn lleihau costau a'r amser sy'n ofynnol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfarfodydd ffisegol. Gall ddenu aelodau bwrdd newydd hefyd a allai fod mewn ardaloedd eraill neu sydd wedi eu rhwystro i ryw raddau yn y gorffennol gan deithiau hirfaith ac ystyriaethau amser.

### Gweithrediadau Busnes:

- Ystyriwch pa feddalwedd ac adnoddau rydych chi wedi'u defnyddio yn ystod y cyfyngiadau symud i gynnal eich busnes. Meddyliwch am feddalwedd cyfrifyddu, CRM's, systemau ffeilio, storfeydd cwmwl, y gyflogres. Beth sydd wedi gweithio'n dda a heb weithio cystal? Ymchwiliwch a oes pecynnau a rhaglenni meddalwedd amgen ar gael a'r costau cysylltiedig.
- Gyda mwy a mwy o aelodau staff yn gweithio gartref, a oes gofyniad i fuddsoddi mewn mwy o gyfarpar neu gynhyrchion i gefnogi'r ffordd newydd o weithio?
- Oes angen trwyddedau neu hyfforddiant ychwanegol arnoch chi? A oes unrhyw gostau ychwanegol?
- A fydd angen i chi hyfforddi aelodau staff ar systemau newydd?

### Camau gweithredu:

- Ewch ati i adolygu'r dechnoleg rydych chi wedi bod yn ei defnyddio a sganio'r farchnad ar gyfer cynhyrchion neu systemau newydd neu ychwanegol.
- Cynlluniwch sut gallwch chi ddefnyddio technoleg newydd neu ei defnyddio i raddau mwy yn eich busnes i gynorthwyo gyda masnachu, cyfathrebu, cydweithredu a swyddogaethau busnes. Defnyddiwch y tabl isod fel man cychwyn:

Dull	Camau Gweithredu	Cymorth
Gwerthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol Cwsmeriaid yn cysylltu â chi'n uniongyrchol e.e. drwy Facebook	Sefydlu cyfrif porth taliadau fel y gall cwsmeriaid eich talu'n ddiogel. Mae darparwyr yn cynnwys PayPal, World Pay, Amazon Pay, Stripe neu Shopify.	<a href="https://startups.co.uk/best-payment-gateways/">https://startups.co.uk/best-payment-gateways/</a>



Messenger neu raglen arall.	Gwiriwch y cyfraddau a'r swyddogaethau. Byddwch yn talu ffi fisol fel arfer neu'n talu wrth fynd 2-3% a 20c fesul trafodyn.	
Gwerthu drwy eich gwefan	Ychwanegu swyddogaeth e-fasnach i wefan fel WooCommerce (mae hwn yn ddewis da i safleoedd WordPress) neu ddefnyddio plattfform fel Shopify. Byddwch angen integreiddio hyn gyda phorth taliadau (fel PayPal).	Canllawiau i gymharu plattfformau <a href="https://www.wpbeginner.com/plugins/best-wordpress-ecommerce-plugins-compared/">https://www.wpbeginner.com/plugins/best-wordpress-ecommerce-plugins-compared/</a>
Defnyddio plattfform adeiladu gwefannau	Mae gwefan templedi fel SquareSpace yn ffordd gyflym a hawdd i sefydlu a gwerthu. Byddwch yn talu ffi fisol o tua £20 ond mae'r opsiynau i ychwanegu elfennau personol o bosib yn gyfyngedig. Mae cwmnïau gweletya eraill yn cynnig gwefannau adeiladu gwefannau parod sydd â swyddogaethau e-fasnach.	<a href="https://www.squarespace.com/">https://www.squarespace.com/</a>
Defnyddio plattfform y diwydiant	Mae ymuno â gwefan plattfform lle mae'r dechnoleg eisoes wedi'i sefydlu, yn opsiwn hawdd a bydd yn eich galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd eraill. Ee ar gyfer bwyd, JustEat neu Slurp. Fodd bynnag, gallwch dalu % uchel iawn felly cofiwch gymharu cyfraddau.	Os ydych am ddatblygu plattfform ar gyfer eich diwydiant lle mae'r gweithwyr yn ei reoli, mae hyn yn bosibl hefyd! <a href="https://www.uk.coop/unfounded">https://www.uk.coop/unfounded</a>
Gwerthu ar safleoedd neu mewn digwyddiadau gyda pheiriant darllen cardiau a lleihau'r arian parod a dderbynnir. Gall hyn helpu gyda gofynion Covid ar gyfer cadw pellter ac <u><a href="#">Aseu Risgiau</a></u> (adran dolenni)	Ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer peiriant taliadau fel iZettle, Square, SumUp ac World Pay. Rydych chi'n prynu'r peiriant darllen cardiau ac yn cymryd taliadau drwy ap; byddwch angen cysylltiad Bluetooth. Mae ffioedd trafodion tua 1.7% ac mae'r arian yn mynd yn syth i'r cyfrif.	Canllawiau i beiriannau taliadau <a href="https://www.mobiletransaction.org/card-machine-small-business-uk/">https://www.mobiletransaction.org/card-machine-small-business-uk/</a>





Anfonebu	Cymerwch gip ar Sagepage sydd tua £5 y mis a gall fod yn gydnaws â thaliadau ffôn hefyd. World Pay Mae iZettle yn cynnig nodwedd anfonebu yn eu hap am tua 2.5% fesul trafodyn.	<a href="https://www.sagepay.co.uk/our-payment-solutions/get-paid-faster">https://www.sagepay.co.uk/our-payment-solutions/get-paid-faster</a>
Cyfrifyddu	Ystyriwch Quick Books yn ogystal â Sagepay a Xero. Mae Quick Books yn cychwyn ar £5 y mis ar hyn o bryd ac mae yna opsiynau anfonebu, llif arian a chyflogres. Mae'n eich galluogi i dynnu llun o dderbynebaw a'u lanlwytho.	<a href="https://www.techradar.com/uk/best/best-accounting-software">https://www.techradar.com/uk/best/best-accounting-software</a>

- Ymchwiliwch i'r gofynion hyfforddi, yr adnoddau sydd eu hangen yn cynnwys amser staff, yr arian a'r cymorth technegol sydd eu hangen ar gyfer rhoi'r dechnoleg newydd ar waith.
- Ewch ati i gynnal arolwg staff ar gymwyseddau TG ac anghenion hyfforddi. Gellir cael adborth ar y gwelliannau y gellir eu gwneud i'r systemau a'r bylchau cyfredol.
- Gwiriwch eich diogelwch ar-lein  
<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/information-hub>

Rhestr Wirio ar gyfer Technoleg	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Cynnal adolygiad o'ch defnydd cyfredol o dechnoleg			
Cynnal arolwg staff ar sgiliau a chymwyseddau TG ac anghenion y sefydliad			
Ymchwilio i'ch opsiynau a'ch costau			
Datblygu cynllun i ddefnyddio technoleg i raddau mwy yn eich busnes			
Darparu hyfforddiant ar feddalwedd/cynhyrchion			
Sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfredol			
Gwirio eich diogelwch ar-lein			



## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

### Cyrsiau ar Fand-Eang Cyflym Iawn

<https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/events>

### Gweminarau gan Cymunedau Digidol Cymru <https://www.digitalcommunities.gov.wales/>

**Tiwtorial ar Zoom** <https://support.zoom.us/hc/en-us/articles/206618765-Zoom-Video-Tutorials>

**Canllaw Technoleg SBW** <https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/03/Technology-factsheet-English.pdf>

**Pyrth Taliadau** <https://startups.co.uk/best-payment-gateways/>

## Rheoli Cyllid

**Yn gryno:** Mae economegwyr yn rhagweld y bydd hi'n cymryd peth amser eto cyn y bydd lefelau hyder a gwariant ymysg defnyddwyr yn dychwelyd i'w lefelau cyn covid, yn enwedig gan fod dirwasgiad ar y gweill. Felly, yn ogystal ag ymgodymu â her llacio'r cyfyngiadau symud, bydd angen i fusnesau wynebu cyfnod anodd o safbwynt yr economi.



O'r cychwyn cyntaf, mae llif arian yn ystod y pandemig wedi bod yn flaenoriaeth i fusnesau, ond wrth i'r pecynnau cymorth ariannol arbenigol fel y cynllun cadw swyddi a grantiau covid ddirwyn i ben, mae'n bwysig bod busnesau yn ystyried eu sefyllfa ariannol yn y tymor hwy. Mae paratoi a bod yn realistig yn allweddol. Bydd adolygu eich sefyllfa bresennol a sut bydd lefelau masnachu dros y flwyddyn yn eich barn chi yn eich galluogi i ddod o hyd i'ch model ariannol a gweithredu gorau posibl i'ch arwain drwy'r blynyddoedd nesaf. I rai busnesau, gall hyn olygu lleihau costau'n sylweddol a gwneud penderfyniadau anodd am y nwyddau a'r gwasanaethau y byddwch yn eu cynnig wrth symud ymlaen. Gall hefyd olygu edrych ar lefelau staff a gorbenion. I fusnesau eraill, gall y ffocws fod yn un gwahanol - efallai eu bod wedi arallgyfeirio o ran yr hyn maen nhw'n ei gynnig oherwydd y pandemig, ac felly hwyrach y bydd y broses o adolygu'r adnoddau angenrheidiol a phosibiliadau elw'r nwyddau/cynhyrchion yn ganolbwynt i'r ymarfer hwn.

Waeth beth fo'ch sefyllfa ach ymateb i'r pandemig a'r cyfnod clo dilynol, bydd angen i bob busnes ystyried ei sefyllfa ariannol wrth symud ymlaen a threfnu cyfarfod bwrdd er mwyn adolygu'r rhagamcanestyniadau a'u haddasu yn wyneb yr amgylchedd gweithredu cyfredol a disgwylidig. Mae'r broses o adolygu a diwygio cyllid y busnes yn eich galluogi i weld unrhyw fylchau ac ystyried sut gallwch eu llenwi, drwy gyllid neu fenthyciadau neu drwy



leihau costau. Bydd eich gwaith paratoi a'ch cynlluniau wrth gefn o bosib yn hanfodol wrth i chi geisio goroesi'r cyfnod economaidd anodd sydd ar droed.

### Ystyriwch y canlynol:

- Ystyriwch eich incwm: sut mae eich cyllid wedi cael ei effeithio dros y pedwar mis diwethaf? Sut mae'r ffigurau gwirioneddol yn cymharu â'r hyn a ragwelwyd? Ystyriwch sut mae'n wahanol o gymharu â'r un cyfnod yn y blynyddoedd diwethaf?
- Ystyriwch sut rydych am gynhyrchu eich incwm, pa Gytundebau Lefel Gwasanaeth neu daliadau grant fydd yn dod i'ch rhan? Gall gweithredu ar lefel is effeithio ar eich incwm o Gytundebau Lefel Gwasanaeth, felly siaradwch â'ch contractwr i ddysgu sut bydd hyn yn effeithio ar eich incwm.
- Ydych chi wedi troi at gyllid neu fenthyciadau covid? A fydd bwlch yn eich cyllid unwaith y bydd y cyllid hwn yn dirwyn i ben?
- Ceisiwch ragweld sut bydd eich incwm dros y misoedd nesaf. Byddwch yn realistig a doeth wrth ragamcanu'ch incwm.
- Os bydd diffyg, allwch chi nodi faint yn union? Ydych chi wedi ystyried denu mwy o arian i'r busnes i ariannu'r bwlch? Gall hyn ar ffurf grantiau neu fenthyciadau, rhyddhau rhywfaint o arian wrth gefn i mewn i'ch busnes neu gwtogi eich costau. Ystyriwch beth yw'r opsiwn gorau i'ch busnes a'r hyn sydd ar gael.
- Ystyriwch y costau, oes yna ffyrdd y gallwch gwtogi eich costau? Gall fod yn broses anodd, ond bydd rhaid i chi ystyried eich model busnes newydd a bydd rhaid i chi addasu eich costau'n unol â hynny os ydych am oroesi.
- I'r mwyafrif o fusnesau, efallai mai staffio yw'r costau uchaf, felly gall lleihau oriau neu ddiswyddo staff fod yn broses anorod. Bydd angen i fusnesau baratoi ar gyfer diwedd y Cynllun Cadw Swyddi ym mis Hydref a chynllunio ar gyfer y ffordd y byddant yn cynnwys cyflogau neu gostau diswyddo ar ôl y cyfnod hwn.  
<https://www.accountingweb.co.uk/business/finance-strategy/redundancies-and-furlough-get-the-details-right>
- Mae yna amrywiaeth o ffyrdd eraill o leihau costau yn cynnwys newid cyflenwyr, ystyried safleoedd a gorbenion. Rydym wedi datblygu canllawiau er mwyn eich helpu  
<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/05/COVID-19-guidance-note-Stripping-Back-Your-Cashflow-Eng-v4.pdf>
- Mae monitro eich llif arian a'ch gallu i ymateb, addasu a bod yn hyblyg i newidiadau i gyllid eich busnes yn elfen allweddol o ymdopi dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Trafodwyd y broses o reoli llif arian yng ngham 1 y gyfres ac mae ar gael yma:  
<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/06/Journey-To-Reopening-Stage-1-v1.1-final-eng.pdf>



## Camau Gweithredu:

- Ewch ati i adolygu eich incwm a'ch gwariant, eich rhagolygon a'ch llif arian gan gymharu perfformiad gwirioneddol i'r hyn a ragwelwyd.
- Ewch ati i adolygu rhagamcaniadau incwm yn unol â hynny am y 6-12 mis nesaf.
- Nodwch a fydd diffyg a ffyrdd o lenwi'r bwlch mewn incwm.
- Edrychwch ar eich costau ac ystyried ffyrdd o gwtogi neu leihau costau.
- Siaradwch â chyllidwyr, banciau a buddsoddwyr am sut i gael gafael ar fenthyciadau tymor byr neu ymestyn credyd presennol.
- Siaradwch â chyflenwyr am drefniadau newydd.
- Ystyriwch sut mae modd cyflwyno arian i'r busnes neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

Rheoli Rhestr Wirio Cyllid	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Adolygu eich incwm a'ch gwariant dros y 6 mis diwethaf.			
Cymharu ffigurau gwirioneddol yn erbyn yr hyn a ragwelwyd ac yn erbyn yr un cyfnod yn y blynnyddoedd diweddar.			
Nodi unrhyw ddiffygion ariannol unwaith y mae cynlluniau cymorth y llywodraeth a ffynonellau cyllid eraill yn dirwyn i ben.			
Adolygu eich costau a nodi ffyrdd posibl o leihau costau.			
Ymchwilio i'ch opsiynau i lenwi'r bwlch.			
Datblygu neu adolygu eich rhagolygon ariannol ar gyfer y 12 mis nesaf.			

## Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

Mae gan **Business Wales** wybodaeth ddefnyddiol ar ddeall eich costau:

<https://businesswales.gov.wales/starting-up/finance/understanding-costs#guides-tabs--1>

A chanllaw cam wrth gam i ragolygon llif arian: <https://businesswales.gov.wales/starting-up/managing-your-finances/cashflow-forecast#guides-tabs--0>

Mae **Deloitte** wedi datblygu canllaw i reoli llif arian yn ystod y pandemig:

<https://www2.deloitte.com/content/dam/Deloitte/global/Documents/About-Deloitte/gx-COVID-19-managing-cash-flow-in-crisis.pdf>

Mae gan **Good Finance** ganllawiau ac adnoddau hawdd eu deall ar ffyrdd o gael mynediad at fuddsoddiadau cymdeithasol yn ogystal â dolenni i 25 a mwy o fuddsoddwyr



cymdeithasol: <https://www.goodfinance.org.uk/covid-19-resource-hub-charities-social-enterprises>>

Mae **Cyllido.Cymru** yn cynnwys adnodd hawdd ei ddefnyddio ar ddod o hyd i gyllidwyr <https://funding.cymru/>

Mae **Grants Online** yn cynnwys gwybodaeth am gronfeydd lleol a rhanbarthol <https://www.grantsonline.org.uk/coronavirus.html>

## Llesiant yn y Gweithle

### Yn gryno:

Mae busnesau wedi gorfod wynebu nifer o heriau yn dilyn y pandemig, ond mae gweithwyr cyflogedig ac arweinwyr fel ei gilydd wedi gorfod wynebu heriau personol a phroffesiynol yn yr un modd. Yn sgil pandemig Covid, mae pobl wedi gorfod ymdopi â newidiadau sylweddol i'r ffordd maen nhw'n gweithio, lle maen nhw'n gweithio a'r cyfyngiadau symud, gyda goblygiadau difrifol ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a llesiant yn gyffredinol i'r rhan fwyaf ohonom. Mae llawer ohonom wedi gorfod addasu'n gyflym i amgylchedd gweithio newydd, gan weithio gartref neu hyd yn oed wynebu ffyrlo. Yn ychwanegol at hynny, mae yna bryderon cyffredinol am y clefyd a'r cyfrifoldebau a'r pwysau gofalu ychwanegol yn sgil addysgu o'r cartref, ymdopi â gwaith a bywyd ac mae hyn wedi newid blaenoriaethau yn sylweddol ac wedi arwain at fwy o ddatgysylltu o fyd gwaith a chydweithwyr.

Mae mynd i'r afael â llesiant yn y gweithle a chymryd camau cadarnhaol yn hanfodol ar hyn o bryd wrth i lawer o fusnesau ddechrau dod â'u staff yn ôl i'w swyddfeydd a'u safleoedd ac mae'r un mor bwysig i fusnesau sy'n bwriadu parhau i weithredu gyda staff yn gweithio gartref. Mae sicrhau bod gennych chi dîm o staff gwydn a hyblyg sy'n gallu ymdopi â'r drefn newydd a'r heriau o'n blaenau yn cryfhau eich busnes a'i allu i ymdopi â phob her a ddaw.

Efallai fod llesiant yn y gweithle wedi bod yn llai o flaenoriaeth fusnes dros y misoedd diwethaf, ac mae hynny'n ddealladwy, ond gall ail-flaenoriaethu hynny gael effeithiau cadarnhaol ar eich busnes. Ond mae buddsoddi amser ac adnoddau mewn mentrau a strategaethau llesiant yn gwbl hanfodol yn y cyfnod sydd ohoni. Gall wella cynhyrchiant a brwdfrydedd, cynyddu arloesedd, dulliau cyfathrebu a gwaith ac yn y pen draw gall roi hwb i



forâl staff yn ogystal â chyfrannu at leihau lefelau absenoldeb a gwella lefelau cadw staff. O safbwynt gweithwyr cyflogedig, gall leihau straen sy'n gysylltiedig â gwaith a meithrin gwell perthynas waith a chyfrannu at lefelau boddhad aelodau staff.

### Ystyriwch y canlynol:

- Y ffordd rydych chi'n hybu llesiant yn eich sefydliad - ydy eich strategaethau, eich polisiau a'ch adnoddau wedi'u haddasu yn sgil covid a'r newidiadau i'r busnes?
- Y ffordd rydych chi'n cyfathrebu ag aelodau staff o ran llesiant ac iechyd meddwl. Allwch chi eu hatgoffa o unrhyw adnoddau, raglenni neu ffynonellau cymorth sydd ar gael iddyn nhw drwy'r gwaith? Gall anfon neges gan y Prif Weithredwr ddangos bod eich sefydliad yn gweld gwerth yn llesiant y gweithle ar bob lefel.
- Hefyd ystyriwch y ffordd rydych chi'n cyfathrebu newidiadau gyda'ch tîm, yn enwedig ynghylch y pandemig ac amodau gwaith. Gall rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr cyflogedig a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau lle bynnag y bo'n bosibl leihau lefelau gorbryder a straen sy'n gysylltiedig â gwaith a chynyddu lefelau ymgysylltu a chynhyrchiant gweithwyr cyflogedig.
- Ystyriwch ddatblygu Cynllun Gweithredu Llesiant ar gyfer gweithwyr cyflogedig, gall hyd yn oed gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio gartref yn ystod y pandemig gael budd: [https://www.mind.org.uk/media-a/6020/22078\\_work-from-home-wap.pdf](https://www.mind.org.uk/media-a/6020/22078_work-from-home-wap.pdf)
- Ystyriwch gynnal arolygon staff er mwyn mesur y ffordd mae pobl yn ymdopi. Gellir ailadrodd y broses hon yn rheolaidd a rhannu'r canlyniadau ag aelodau staff. Gellir cynnal arolygon yn gyflym ac yn rhad ac am ddim drwy adnoddau fel survey monkey.
- Dylech sicrhau bod rheolwyr llinell yn cysylltu'n rheolaidd ag aelodau eu tîm er mwyn canfod sut maen nhw'n ymdopi a thrafod unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw a all beri straen. Gellid trafod diwygio llwythi gwaith, newid oriau neu addasiadau rhesymol. Mae'n bwysig ystyried hefyd yr hyfforddiant a'r cymorth a roddir i reolwyr llinell er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i gael trafodaethau agored gydag aelodau staff am iechyd meddwl. Ystyriwch eich polisi hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi hyn.
- Ystyriwch weithredu system gyfeillio neu fenter cefnogi cymheiriaid yn eich gweithle – mae'n ffordd o gefnogi aelodau staff ac mae'n hybu cysylltiadau gwaith ac ymgysylltu cadarnhaol. O gofio bod llawer o aelodau staff yn teimlo'n ynysig o bosibl ac wedi'u datgysylltu o'r gwaith, gall hyn fod yn gam gwerth chweil.
- O gofio'r pwysau ychwanegol i gyflawni yn ystod y cyfnodau hyn, efallai fod rhai aelodau staff wedi bod yn gweithio oriau ychwanegol ac yn teimlo pwysau i gwblhau tasgau. Yn y tymor byr, efallai fod hyn yn rhywbeth y gellir ei reoli, ond gall pwysau parhaus a chydbwysedd gwael rhwng bywyd a gwaith arwain at straen a blinder





difrifol. Gall hybu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith helpu. Yn ogystal, gellid annog staff i weithio oriau synhwyrol, cymryd egwyl cinio priodol, defnyddio eu gwyliau blynyddol a pheidio â gweithio oriau gormodol sy'n arwain at lawer iawn o amser i ffwrdd yn lle hynny - mae'r rhain yn gamau syml a all helpu i sicrhau cydbwysedd.

- Gall gweithwyr cyflogedig sydd wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu weithwyr sy'n gweithio gartref o bosibl deimlo'n ynysig neu wedi'u datgysylltu oddi wrth eu cydweithwyr a'u gweithle a bydd rhai'n methu ochr gymdeithasol y gwaith a'r rhyngweithio gyda chydweithwyr. Yn ogystal â'r cyfarfodydd tîm ffurfiol, beth am ystyried amserlen sesiynau tîm dros ginio neu amser paned neu gwis rhith – mae'n ffordd o gael aelodau staff i ail-ymgysylltu â'i gilydd a chymdeithasu. Byddai'n ffordd o ddarparu'r rhwydweithiau cymorth anffurfiol a fyddai'n digwydd fel arfer yn y gweithle yn ystod egwyl cinio pan fyddai staff yn dod at ei gilydd am sgwrs.
- Meddyliwch am ffyrdd o ddod ag aelodau staff yn ôl i'r gwaith. Os ydych chi wedi cael eich rhoi ar gynllun ffyrlo neu'n gweithio gartref am gyfnod helaeth, gall y syniad o ddychwelyd i swyddfa neu safle gwaith fod yn llethol. Mae Mind, Acas, The School Of Occupational Medicine a Business In The Community wedi cydweithredu i ddatblygu pecyn cymorth dychwelyd i'r gwaith  
[https://www.som.org.uk/Returning\\_to\\_the\\_workplace\\_COVID-19\\_toolkit\\_FINAL.pdf](https://www.som.org.uk/Returning_to_the_workplace_COVID-19_toolkit_FINAL.pdf)

### Camau Gweithredu:

- Ewch ati i adolygu'r ffordd rydych chi'n hybu llesiant yn eich sefydliad ac a ydyn nhw wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfyngiadau symud a'r pandemig. Mae angen addasu'n briodol.
- Gofynnwch i'r Prif Swyddog Gweithredol lunio neges i aelodau staff yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant yn eich gweithle, sy'n cynnwys manylion y mentrau a'r cymorth sydd ar gael i weithwyr cyflogedig.
- Ystyriwch ymestyn y cymorth i gynlluniau a mentrau newydd. Ymchwiliwch i'r arferion gorau a'r hyn sydd ar gael yn cynnwys y costau.
- Ewch ati i gyfathrebu'r ffordd y gall gweithwyr cyflogedig gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- Dylech gynnal arolwg staff er mwyn mesur llesiant yn eich sefydliad a gofyn am adborth ar welliannau.
- Gallwch hyfforddi rheolwyr llinell ar faterion iechyd meddwl a gwella eu sgiliau, eu gallu a'u hyder i allu cael sgysiau agored gyda'u haelodau staff.
- Ceisiwch amserlennu sesiynau fel y gall rheolwyr gadw mewn cysylltiad ag aelodau staff.



- Ceisiwch amserlennu digwyddiadau cymdeithasol. Gallent fod yn ddigwyddiadau rhith neu gyfleoedd i ddod ynghyd gan gofio gofynion cadw pellter sy'n galluogi gweithwyr cyflogedig i ddarparu cymorth cymheiriaid i eraill.

Rhestr Wirio ar gyfer Llesiant yn y Gweithle	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Adolygu strategaethau a mentrau cyfredol y gweithle o ran llesiant			
Cynnal arolwg staff			
Anfon neges gan y prif weithredwr yn hyrwyddo pwysigrwydd llesiant ac yn sôn am y cymorth/mentrau sydd ar gael yn eich gweithle			
Darparu hyfforddiant iechyd meddwl i reolwyr llinell			
Hybu ffyrdd o sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'ch gweithwyr cyflogedig yn cynnwys gweithio oriau synhwyrol a chymryd egwyl cinio.			
Trefnu sesiynau cymdeithasol rhith fel egwyl coffi, cwisiau a digwyddiadau.			

### Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol:

**Mind** <https://www.mind.org.uk/workplace/coronavirus-and-work/>

**Mental Health Foundation:** <https://www.mentalhealth.org.uk/coronavirus/looking-after-your-mental-health-during-coronavirus-outbreak-while-working>

**Acas** <https://www.acas.org.uk/health-and-wellbeing>

**CIPD** <https://www.cipd.co.uk/knowledge/culture/well-being/factsheet>

**Deloitte Monitor** – Mental Health And Employers: Refreshing The Case For Investment: <https://www2.deloitte.com/uk/en/pages/consulting/articles/mental-health-and-employers-refreshing-the-case-for-investment.html>

**Cyngor Diogelwch Prydain** – Not Just Free Fruit 2018: <https://www.britsafe.org/campaigns-policy/not-just-free-fruit-wellbeing-at-work/>



Rydych chi gam yn nes at ailagor a pharau ar agor, mae ail gam y paratoi a'r cynllunio wedi'i gwblhau. Ymlaen nawr i'r gweithlyfr nesaf:

### **Cam 3: Y Rhwystrau o'ch Blaen**

Gallwch adolygu'r camau a gymerwyd dan **Gam 1: Cynllunio Eich Siwrne** yn y gyfres hon yma:

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2020/06/Journey-To-Reopening-Stage-1-v1.1-final-eng.pdf>

**Angen mwy o gymorth?** Siaradwch ag un o'n cynghorwyr busnes ar 0300 111 5050 neu ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth, adnoddau a chanllawiau:

<https://wales.coop/covid-19-hub/>

<https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy>



## ATODIAD 1: Adnodd Rhestr Wirio

Rhestr Wirio ar Hyder Defnyddwyr:	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Adolygu eich cynhyrchion, eich gwasanaethau a'ch prisiau			
Sganio cystadleuwyr			
Canfod dulliau newydd o gyfathrebu â defnyddwyr			
Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu er mwyn hysbysu defnyddwyr o'r camau a gymerwyd i fod yn ddiogel rhag covid			
Rhestr Wirio ar gyfer Cyfathrebu	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Datblygu cynllun cyfathrebu am y 6 mis nesaf nesaf.			
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau staff am weithdrefnau a mesurau diogelwch newydd yn y gweithle.			
Rhoi manylion y profiad newydd i gwsmeriaid drwy fideos, negeseuon a chyfathrebiadau.			
Cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar eich gwefan a'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.			
Cynnal arolwg o gwsmeriaid a rhanddeiliaid.			
Cadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid a rhanddeiliaid drwy ddeunydd marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol.			
Gwiro'r gofynion GDPR.			
Cynllunio sut i fesur a chyfathrebu eich effaith.			
Rhestr Wirio ar gyfer Technoleg	Cwblhawyd	Dyddiad	Erbyn
Cynnal adolygiad o'ch defnydd cyfredol o dechnoleg			
Cynnal arolwg staff ar sgiliau a chymwyseddau TG ac anghenion y sefydliad			
Ymchwilio i'ch opsiynau a'ch costau			
Datblygu cynllun i ddefnyddio technoleg i raddau mwy yn eich busnes			
Darparu hyfforddiant ar			



feddalwedd/cynhyrchion			
Sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfredol			
Gwirio eich diogelwch ar-lein			
<b>Rhestr Wirio ar gyfer Rheoli Cyllid</b>	<b>Cwblhawyd</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Erbyn</b>
Adolygu eich incwm a'ch gwariant dros y 6 mis diwethaf.			
Cymharu ffigurau gwirioneddol yn erbyn yr hyn a ragwelwyd ac yn erbyn yr un cyfnod yn y blynyddoedd diweddar.			
Nodi unrhyw ddiffygion ariannol unwaith y mae cynlluniau cymorth y llywodraeth a ffynonellau cyllid eraill yn dirwyn i ben.			
Adolygu eich costau a nodi ffyrdd posibl o leihau costau.			
Ymchwilio i'ch opsiynau i lenwi'r bwlch.			
Datblygu neu adolygu eich rhagolygon ariannol ar gyfer y 12 mis nesaf.			
<b>Rhestr wirio ar gyfer Llesiant yn y Gweithle</b>	<b>Cwblhawyd</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Erbyn</b>
Adolygu strategaethau a mentrau cyfredol y gweithle o ran llesiant			
Cynnal arolwg staff			
Anfon neges gan y prif weithredwr yn hyrwyddo pwysigrwydd llesiant ac yn sôn am y cymorth/mentrau sydd ar gael yn eich gweithle			
Darparu hyfforddiant iechyd meddwl i reolwyr llinell			
Hybu ffyrdd o sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'ch gweithwyr cyflogedig yn cynnwys gweithio oriau synhwyrol a chymryd egwyl cinio.			
Adolygu strategaethau a mentrau cyfredol y gweithle o ran llesiant			